# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 14 Chwefror 2017 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Gareth Roberts a'r Cynghorydd Mair Rowlands |
| **Swyddog Cyswllt:** | Rhion Glyn (Uwch Reolwr Busnes, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | 01286 679074 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru |

### 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1 Argymell i'r Cyngor Llawn gymeradwyo Adroddiad Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru a gynhyrchwyd yn unol â gofyn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

### 2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1 Er mwyn sicrhau cydymffurfiad a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

### 3 CYFLWYNIAD

3.1 Ar gais Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru, mae Grŵp Llywio Rhanbarthol wedi bod yn gyfrifol am gyd-gordio Adroddiad Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru. Gwnaethpwyd hynny trwy arwain yn strategol o ran ymgysylltu a sefydlu grwpiau technegol a phenodol yn ôl yr angen..

3.2 Mae'r gofyn yn yr arweiniad statudol am lunio adroddiad hygyrch a rhanbarthol o fewn amserlen dynn wedi cyfyngu rhywfaint ar yr hyn sydd wedi ei gynnwys ynddo. Serch hyn, rhagwelir y bydd yr adroddiad hwn yn sail tystiolaeth holl bwysig i wasanaethau a strategaethau'r dyfodol, ac yn greiddiol hefyd i ddatblygiadau integreiddio gwasanaethau yn ogystal â chefnogi trefniadau cydweithio.

3.3 Ceir arweiniad statudol penodol o ran y rheidrwydd i bob awdurdod lleol mewn ardal Bwrdd Iechyd Lleol gynhyrchu Adroddiad Asesiad Poblogaeth ar y cyd.

3.4 Er mwyn cynhyrchu Adroddiad Asesiad Poblogaeth ar y cyd, ac ymateb i'r arweiniad statudol, roedd angen i'r chwe awdurdod lleol ar draws gogledd Cymru gyfuno eu hasesiadau unigol. Mae hyn wedi golygu cydweithio cyson rhwng swyddogion ar draws y rhanbarth a bydd angen parhau'r arfer da hynny yn y dyfodol.

3.5 Dyma'r Adroddiad Asesiad Poblogaeth cyntaf o'i fath ar draws gogledd Cymru ac, gyda gofynion statudol i fod yn adolygu'r asesiad yn rheolaidd, ystyrir y broses hon fel un parhaus fydd yn datblygu a gwella dros amser. Er felly fod yr adroddiad dan sylw yn adrodd ar y sefyllfa gyfredol, disgwylir y byddwn yn ymgynghori'n rheolaidd ac yn ceisio gwella'r wybodaeth a'r dealltwriaeth sydd gennym yn gyson.

3.6 Mae'r gwaith wedi'i arwain a'i lywio gan yr ymgysylltu a wnaethpwyd yn lleol ar draws y chwe awdurdod; ac yn seiliedig felly ar yr adborth gan staff, partneriaid, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd ynghylch sut i adnabod yr anghenion strategol ar gyfer gofal a chefnogaeth. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i strategaethau comisiynu ac asesiadau anghenion cyfredol. Bu tîm y prosiect oedd yn cydlynu'r Adroddiad Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru yn gyfrifol am gasglu tystiolaeth er mwyn herio'r rhagdybiaethau, ac fe wnaed hyn trwy ddadansoddi data, adolygu dogfennau cefndirol, adolygu gwasanaethau a gwaith ymgysylltu ychwanegol.

## 4 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

4.1 Mae Adran 14 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) yn gofyn i awdurdodau lleol a byrddau iechyd i asesu ar y cyd:

a) I ba raddau y mae pobl mewn ardal awdurdod lleol angen gofal a chefnogaeth
b) I ba raddau y mae gofalwyr mewn ardal awdurdod lleol angen cefnogaeth
c) I ba raddau y mae pobl mewn awdurdod lleol ble nad yw eu hanghenion gofal a chefnogaeth yn cael eu diwallu
d) Ystod a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen i gwrdd ag anghenion gofal a chefnogaeth pobl yn ardal yr awdurdod lleol
e) Ystod a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen i gyflawni'r pwrpas yn Adran 15(2) (gwasanaethau ataliol) yn ardal yr awdurdod lleol
f) Y gweithrediadau sydd eu hangen i ddarparu ystod a lefel y gwasanaethau a ganfuwyd yn unol â pharagraffau (d) ac (e) drwy gyfrwng y Gymraeg.

4.2 Mae disgwyliad fod yr asesiad dan sylw yn rhoi ystyriaeth i'r themâu canlynol: plant a phobl ifanc, pobl hŷn, anabledd iechyd / corfforol; anabledd dysgu / awtistiaeth; iechyd meddwl; nam ar y synhwyrau, gofalwyr sydd angen cefnogaeth; trais yn erbyn merched, trais yn y cartref a thrais rhywiol. Yng ngogledd Cymru, mae'r themâu canlynol hefyd wedi eu cynnwys: digartrefedd, cyn-filwyr, carcharorion a chyn garcharorion, ynghyd â chyswllt i'r Asesiad Anghenion Camddefnyddio Sylweddau y Bwrdd Cynllunio Ardal.

4.3 Gofynnir i fod yn cynhyrchu un adroddiad ar gyfer rhanbarth y gogledd, a sicrhau cymeradwyaeth gan Fwrdd y Bwrdd Iechyd Lleol a'r Cyngor Llawn ym mhob Awdurdod Lleol. Mae gofyn hefyd i bob Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd fod yn

cyhoeddi'r adroddiad ar eu gwefan ar y 1af o Ebrill 2017. Disgwylir y bydd copi hefyd yn cael ei yrru at Weinidogion Cymreig.

4.4 Mae fersiwn cryno o'r asesiad wedi ei chynnwys fel Atodiad 1. Mae copi llawn o'r Adroddiad Asesiad Poblogaeth wedi ei gynnwys fel Atodiad 2.

4.5 Ystyrir fod yr adroddiad llawn sydd wedi ei gyflwyno fel Atodiad 2 yn cyfarch gofynion sydd wedi eu nodi yn rhan 4.1 uchod. Ond i ategu at hyn, ac i ymateb yn benodol i flaenoriaethau Gwynedd fel ardal awdurdod lleol, tybir y bydd y data sydd gennym wrthlaw o ran asesiad mwy lleol ei natur yn ein cynorthwyo i ateb gofynion hyn ymhellach fyth.

## 5 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

5.1 Cam nesaf y prosiect yn rhanbarthol fydd defnyddio'r Asesiad Poblogaeth i ddatblygu cynllun ardal ar gyfer rhanbarth y gogledd, ac i'r perwyl hwnnw rydym ar hyn o bryd yn disgwyl arweiniad gan Lywodraeth Cymru.

5.2 Yn fwy lleol wedyn, ac yn ystod y misoedd nesaf, byddwn yn bwrw ati i sicrhau fod gennym y dystiolaeth fwyaf addas ar gyfer comisiynu'n briodol yn y dyfodol.

5.3 Yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet, bydd yr Adroddiad Asesiad Poblogaeth (Atodiad 1 a 2) yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn ar yr 2il o Fawrth.

## 6 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

6.1 Mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb llawn wedi cael ei gwblhau fel rhan o'r prosiect. Gweler Atodiad 3.

6.2 Bu i'r ymgysylltu yn ei gyfanrwydd gynnwys: holiadur i sefydliadau yn gofyn eu barn ac am dystiolaeth; canllaw i hwyluswyr er mwyn i bartneriaid eu defnyddio i gynnal grwpiau trafod gyda defnyddwyr gwasanaeth; holiadur i'r cyhoedd ar wefan y Panel Dinasyddion ynghyd â chyfweliadau gydag aelodau'r Panel Dinasyddion; yn ogystal â gweithdai hefo staff a chynghorwyr. Rhagwelir y bydd ymgysylltu pellach yn digwydd fel rhan o gam nesaf y prosiect a bydd blaenoriaeth yn cael ei roi i unrhyw agweddau y tybir y gellir eu cryfhau.

6.3 Cyflwynwyd yr Adroddiad Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru i Bwyllgor Craffu Gwasanaethau ar y 26ain o Ionawr ble cafwyd cydnabyddiaeth i'r gwaith manwl sydd wedi ei wneud o ran tynnu'r holl wybodaeth at ei gilydd, yn ogystal â gwerthfawrogiad pa mor allweddol yw'r dystiolaeth gerbron ar gyfer datblygu cynlluniau'r dyfodol. Roedd dealltwriaeth lawn hefyd fod y broses newydd hon yn un parhaus ble bydd ymgysylltu cyson yn cael ei gynnal er mwyn sicrhau fod yr asesiad yn gyfredol, a bob amser yn ceisio adlewyrchu'r gwir sefyllfa ar draws y gogledd.

6.4 Cafwyd cynigion defnyddiol gan y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau i fod yn eu

hystyried yn benodol ar gyfer Gwynedd e.e. tafluniadau poblogaeth megis proffil oedran, mewnfudo, gwerth cyfraniadau di dâl gofalwyr a'r costau ychwanegol o fod yn cynnal gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig. Cynigiodd y Pwyllgor sylwadau ar feysydd megis Anabledd Dysgu, Awtistiaeth a Thrais yn y Cartref, a chytunwyd y dylid rhannu'r rhain yn rhanbarthol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn sylw mewn unrhyw adolygiad o'r asesiad.

6.5 Yn ogystal, mynegodd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau bryder gwirioneddol ynglŷn â'r maes Iechyd Meddwl yn benodol a phwysleisio'r angen i fod yn rhoi blaenoriaeth i'r maes hwn mor fuan â phosib.

6.6 Mae'n rhaid i bob Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus lunio Asesiad Llesiant fel gofyniad o dan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a hynny o fewn amserlen debyg i'r Asesiad Poblogaeth. Tra mae'r Asesiad Poblogaeth yn ystyried anghenion gofal a chefnogaeth y boblogaeth, mae'r Asesiad Llesiant yn rhoi sylw i lewyrch, iechyd, gwydnwch, cydraddoldeb, diwylliant egnïol, cyfrifoldeb byd-eang, a chymunedau cydlynol. Ond gyda'r ddau faes cyfrifoldeb yn amlwg yn gorgyffwrdd mae cydweithio a chyfathrebu cyson wedi bod gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar draws y gogledd. Er enghraifft, fe wnaed gwaith ymgysylltu ar y cyd ar gyfer y ddau asesiad.

**Sylwadau Swyddogion Statudol:**

**Y Prifweithredwr**:
Mae yna waith clodwiw wedi ei wneud gan y Bwrdd Rhanbarthol a staff y sefydliadau sy'n perthyn iddo i geisio sefydlu asesiad poblogaeth mewn amserlen hynod o dyn ac o fewn cyd-destun llywodraethu cymhleth. Serch hynny, yr hyn sy'n rhaid i ni ei ofyn yw a yw'r asesiad yn rhoi atebion clir ar y 6 mater y mae gofyn iddo ymateb iddynt **o ran ardal Gwynedd** gan ystyried geiriad Adran 14 y Ddeddf**.** O fod yn darllen drwy'r holl ddogfen mae modd pigo allan elfennau sydd yn gwneud hynny ond efallai y gellid bod wedi gosod allan sefyllfa Gwynedd yn gliriach. Credaf fod hyn yn adlewyrchiad o sut nad yw deddfwriaeth a chyngor statudol sydd yn ceisio mynd i fan lwch y cloriannau yn ein helpu i wella gwasanaethau i drigolion Gwynedd ond yn hytrach yn creu amgylchedd dryslyd i'r gweithlu sydd yn ei dro yn arwain at ganlyniadau nad ydynt cystal ag y byddem wedi disgwyl. Wedi dweud hynny, byddwn yn awgrymu ein bod yn mabwysiadu'r asesiad ond gan ofyn am is adroddiad cliriach o'r sefyllfa yn ardal Gwynedd cyn gynted ag y bo modd.

**Prif Swyddog Cyllid:**
Derbyniwyd cadarnhad gan awdur yr adroddiad nad oes cais adrannol am adnoddau ychwanegol i'r perwyl o ddiwallu'r anghenion yma ar hyn o bryd, felly 'does dim oblygiadau ariannol yn deillio'n uniongyrchol o dderbyn yr adroddiad sydd ger bron. Bydd y wybodaeth sydd yn yr 'Asesiad' rhanbarthol yma'n rhoi tystiolaeth i'r Cyngor ymateb iddo, a fydd yn sail i'r gwasanaeth sirol ystyried comisiynu'n briodol i'r dyfodol. Felly, rhoddir ystyriaeth i unrhyw ymhlygiadau ariannol yn y dyfodol pryd bydd

yr Adran yn cyflwyno unrhyw ddatblygiadau a strategaethau comisiynu dilynol fydd yn benodol i Wynedd.

**Swyddog Monitro:**
Fe nodir yn yr adroddiad fod yr “Adroddiad” yma yn cael ei pharatoi er cyfarch gofyn statudol yn deillio o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i baratoi cynllun ar y cyd gyda’r Bwrdd Iechyd. Mae’r arweiniad statudol ynglŷn â Rhan 2 o’r Ddeddf hefyd yn cyfeirio’r Awdurdod i baratoi cynllun ar y cyd yn rhanbarthol gyda’r awdurdodau perthnasol eraill ynghyd a rhoi’r ddogfen gerbron y Cyngor llawn i’w mabwysiadu

**Atodiadau:**

Atodiad 1 - Adroddiad Asesiad Anghenion Poblogaeth Gryno
Atodiad 2 – Adroddiad llawn yr Asesiad Anghenion Poblogaeth
Atodiad 3 – Asesiad Effaith Cydraddoldeb

**Papurau cefndirol:**

| | |
|---|---|
| Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Cod Ymarfer | http://www.cgcymru.org.uk/codau-ymarfer-ac-arweiniad-statudol / |